# Neges yr Adfent 2020 oddi wrth

# Esgob Gregory

Pan oeddwn yn siarad â chi yn fy neges yr Adfent y llynedd, roedd fy neges wedi'i seilio ar obaith; y syniad fod Iesu'n dweud wrthym, pan fydd pethau'n mynd o'i le neu'n anodd, y dylem ni godi'n pennau a chwilio i weld ble mae Duw yn gweithio yn ein mysg. Allwn i ddim bod wedi dychmygu'r adeg hynny, fyddai'r un ohonom wedi dychmygu, beth oedd o'n blaenau yn y flwyddyn 2020, ac eleni mai'r feirws, a fawr ddim byd arall, sydd ar feddyliau pawb.  Mae'n anhygoel ei fod wedi hel Brexit, hyd yn oed, i'r sedd gefn!

Mae fy meddyliau cyntaf yn mynd at yr holl bobl sydd wedi dioddef oherwydd y feirws. Y rhai sydd wedi marw neu'r rhai sydd wedi colli aelodau o'r teulu. Y rhai y sydd bron wedi eu carcharu yn eu cartrefi, neu drwy ofn, oherwydd does neb ohonom yn gwybod beth, mewn gwirionedd, sydd rownd y gornel. Ac eto, mae'n hesgobaeth wedi goroesi ac wedi dangos gwytnwch yn wyneb yr argyfwng. Mae'r Ardaloedd Cenhadaeth wedi ateb yr alwad.

Mae gwahanol lefelau'r eglwys, Ardaloedd Cenhadaeth, yr Esgobaeth a'r Taleithiau, wedi gweithio gyda'i gilydd i oresgyn yr anawsterau oedd yn ymddangos o'u blaen. Mae'r Clerigion wedi bod yn anhygoel o ddyfeisgar ynglŷn ag addoli ar lein ac wrth ganfod ffyrdd newydd gyda'u cynulleidfaoedd i ofalu am y rhai a oedd angen gofal, pryd da o fwyd neu gefnogaeth gyfeillgar ar adeg fel hyn. Rwy'n falch o'r hyn mae Teulu Asaph wedi'i gyflawni ac yn diolch i chi am y rhan rydych chi wedi'i chwarae.

Nawr, mae'r Adfent ac yna'r Nadolig yn nesáu. Mae bron yn bendant y bydd y Nadolig hwn yn wahanol i bob Nadolig erioed o'r blaen ac y bydd ein cynlluniau ninnau'n dra gwahanol hefyd. Efallai na fydd ein teulu'n gallu ymuno â ni eleni; efallai ni fyddwn yn gallu cadw at

draddodiadau’r teulu. A bydd “eglwys” yn wahanol iawn hefyd. Fyddwn ni ddim yn gallu llenwi’r eglwys ar gyfer yr Offeren Ganol Nos nac ar gyfer y Gwasanaeth Carolau na’r Gwasanaeth Nadolig eleni. A gallai hynny eich gwneud yn drist iawn.

Rwyf eisiau dod yn ôl at y thema o obaith a dod yn ôl hefyd at y newyddion da y mae’r Nadolig yn ei roi i ni; am Dduw sy’n ein caru a Duw sydd ar ein hochr ni. Rwyf eisiau dod yn ôl at neges y Nadolig, sy’n dweud, pan annwyd baban ym Mhethlehem, y daeth Duw i fyw yn ein plith a’i fod Ef wedi addo y byddai’n aros yn ein plith i annog, i ysbrydoli, i adeiladu dyfodol. Ac mae hynny’n golygu, fel eglwys, fel pobl Dduw, fel y rhai sy’n credu ac yn dilyn Iesu, ein bod eisiau bod, y Nadolig hwn, yn bobl goleuni. Pobl a fydd, yng nghanol y tywyllwch, yn dod â gobaith a chariad a llawenydd a heddwch i’r rhai rydym yn dod ar eu traws. Ac na, fyddwn ni ddim yn gallu gwneud hynny yn y ffordd arferol. Fyddwn ni ddim yn gallu gwahodd pobl i mewn a chanu gyda nhw neu bregethu iddyn nhw. Bydd yn rhaid i ni ddarganfod ffyrdd newydd o gyflwyno ein neges, o fynd allan o’n ffordd i ddanfon daioni i gartrefi pobl, hyd yn oed y rhai na allwn ni dreulio amser gyda nhw. Bydd y rhaid i ni ddarganfod ffyrdd newydd o gyflwyno’r rhodd o heddwch sy’n dod gyda’r Nadolig.

Mi wn o’r sgyrsiau rwyf wedi cael gyda llawer o’r clerigion a chyda llawer o’r Ardaloedd Cenhadaeth fod llu o syniadau creadigol yn berwi allan yna, ffyrdd newydd o blannu neges y Nadolig. Ac rwy'n meddwl mai dyna'r her i ni yr Adfent hwn: Peidio â gwneud beth ydym ni wastad wedi’i wneud ond meddwl sut, trwy ystum, gweithred, addoli ar lein, cyflwyno’r neges, y gallwn ni rannu'r neges fod Duw ar ein hochr ni, fod Duw wedi'i eni i'r byd drosom ni, mewn ffordd newydd.

A dyma fydd fy ngweddi drosoch chi yn ein heglwysi, boed i ysbryd Duw yn eich cyffwrdd, siarad gyda chi, eich ysbrydoli chi, eich cefnogi chi dros y ystod y Nadolig ac wrth wynebu yn 2021 (a Duw yn unig a ŵyr pa heriau ddaw gyda'r flwyddyn honno). Felly, wrth i ni dreulio’r Nadolig a dod at y Flwyddyn Newydd, byddwn yn gwybod ein bod yn cario gyda ni y gobaith o iachawdwr sy'n ein caru a chariad Duw sy'n ein gwasanaethu.

Boed i Dduw fod gyda chi'r Adfent a’r Nadolig hwn. Amen.

